ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGC

Cyfrol 2, Rhifyn 1 Tymor yr Hydref 2005

Tîm Cwricwlwm TGCh

Llythyr Newyddion TGCh

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA!

Cynnwys:

- DiDA—Genre newydd mewn Cymwysterau
- Ystafell TG newydd yn Ysgol Iau Pentrepoeth
- Cynllun Benthyg Gliniaduron
- Trefnwyd Cyfarfod Grŵp CL@SS nesaf
- Cynllun Gwaith TGCh
- Dewch i Animeiddio!
- Diweddariadau Han-fodol
- Prosiect SA1
- Arian Grant GCaD
- Safle SLTS ar-lein!

Cofiwch:

- Rhif llinell gymorth: 01792 636900 Desg Wasanaeth ar gyfer ymholiadau technegol
- YGG Bryn Tawe: 01792 560649 Tîm Cwricwlwm TGCh

DiDA—Genre newydd mewn Cymwysterau

Mae DiDA (**D**iploma mewn Cymwysiadau Digidol) yn gyfres newydd gyffrous o gymwysterau di-bapur gan Edexcel sy'n canolbwyntio ar gymwysiadau ymarferol TGCh. Mae'r gyfres DiDA yn cynnwys pedair uned: **Defnyddio TGCh**, **Aml-gyfrwng**, **Graffeg** a **TGCh mewn Menterau.**

I ennill y:
Dyfarniad mewn Cymwysiadau Digidol(**AiDA**) rhaid cwblhau Uned 1 yn llwyddiannus: Defnyddio TGCh. (Cyfwerth ag 1 TGAU)
Tystysgrif Cymwysiadau Digidol (**CiDA**) rhaid cwblhau Uned 1: Defnyddio TGCh yn llwyddiannus ac un o'r tair uned arall. (Cyfwerth â 2 TGAU)
Diploma Cymwysiadau Digidol (**DiDA**) - rhaid cwblhau'r pedair uned yn llwyddiannus. (Cyfwerth â 4 TGAU)

Hyblygrwydd
Mae'r cymhwyster newydd yn cynnig llawer mwy o hyblygrwydd na'r GNVQ Canolradd y mae'n ei ddisodli. Mae'r strwythur yn cefnogi datblygu model cwricwlwm sy'n galluogi'r holl fyfyrwyr i sefyll y Dyfarniad, mor gynnar â Blwyddyn 9, gan ddatblygu i'r Dystysgrif (dwy uned) ym Mlwyddyn 10, ac yn olaf i'r Diploma llawn (pedair uned) ym Mlwyddyn 11.

Mae rhestr wirio sgiliau TGCh ar gyfer pob uned y gall myfyrwyr ei defnyddio i weld pa sgiliau sydd ganddynt yn barod a pha rai y mae angen iddynt eu datblygu. Caiff pob uned ei hasesu drwy Brîff Prosiect Crynodol (SPB) a ddarperir gan Edexcel. Mae'r SPB yn ddogfen ryngweithiol sy'n gyfryngol gyfoethog ar sgrîn. Mae pob SPB yn ddilys am flwyddyn galendr. Wrth i fyfyrwyr weithio drwy'r SPB mae'r dystiolaeth y maent yn ei chynhyrchu yn creu e-bortffolio personol. Ni cheir arholiad; mae e-bortffolios y disgyblion yn cael eu cyflwyno drwy 'Edexcel Ar-lein' ar gyfer safoni ar-sgrîn.

Nid oes cynlluniau, ar hyn o bryd, i gyfieithu'r SPB a deunyddiau cefnogi eraill i'r Gymraeg. Os gall Edexcel recriwtio digon o safonwyr Cymraeg, byddant yn cyflwyno'r e-bortffolio yn Gymraeg.

Sgiliau Allweddol
Mae dyfarniad Edexcel Lefel 2, Tystysgrif a Diploma mewn Cymwysiadau Digidol ar gyfer Defnyddwyr TG yn gweithredu yn lle prawf sgiliau a phortffolio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Lefel 2.

Pethau i'w Hystyried
Er bod cymhwyster DiDA yn ddeniadol iawn, nid yw'n opsiwn hawdd a rhaid ystyried llawer o bethau cyn dilyn llwybr DiDA. Mae'r cymhwyster yn adeiladu ar Gynllun Gwaith TGCh QCA Cyfnod Allweddol 3 ac mae gofyn i'r disgyblion gael amrywiaeth eang o sgiliau TGCh wrth iddynt ddechrau ar y cwrs. Ar gyfer llawer o ysgolion bydd hyn yn golygu adolygu cynnwys a'r amser a ddyrennir i addysgu TGCh Cyfnod Allweddol 3.

Mae goblygiadau adnoddau hefyd.

dida delivered
Diploma in Digital Applications

Cynllunio ar gyfer DiDA
Bydd Dot Powell, Rheolwr Datblygu Rhanbarthol Edexcel, yn rhoi Cyflwyniad i gymhwyster DiDA ym Mryn Tawe ddydd Llun 9 Ionawr 10.00 – 12.30. Croeso i unrhyw un â diddordeb yn y DiDA i fynychu.

Er ei bod hi'n bosib cyflwyno DiDA heb ddefnyddio cynnyrch Macromedia, caiff Macromedia Studio 8 ei argymell gan Edexcel a bydd myfyrwyr sy'n cwblhau'r tasgau Macromedia fel rhan o'r SPB yn gymwys i hawlio Tystysgrif Macromedia. Trafodwyd cyfradd arbennig i ysgolion brynu trwydded safle ar gyfer Studio 8, ond er gwaethaf y gostyngiad bydd cost sylweddol os dewisir meddalwedd Macromedia. Bydd rhaid ystyried hyfforddi staff i ddefnyddio cynnyrch Studio 8 hefyd.

Argymhellir nad yw disgyblion yn rhannu cyfrifiadur; bydd hyn hefyd â goblygiadau ar adnoddau ac yn pennu maint dosbarth. Mae DiDA hefyd yn gofyn am newid radical i'r ymagwedd gan athrawon a gall fod costau hyfforddi staff. Fodd bynnag, er gwaethaf y pryderon hyn, mae cyfres cymwysterau DiDA yn cynrychioli dewis arall arloesol i'r TGAU presennol ac mae ganddo'r potensial i ysbrydoli ac ysgogi disgyblion. Mae'n unigryw o ran ei gwmpas, ei athroniaeth a'i ddulliau cyflwyno a chyda chynllunio gofalus, gellir goresgyn rhwystrau i'w roi ar waith.

Ystafell TG Newydd Arloesol yn Ysgol Iau Pentrepoeth

I'm trying to free your mind, Neo. But I can only show you the door. You're the one that has to walk through it. **The Matrix.**

Beth ydym ni'n ei wneud â phlant pan fydd athrawon yn cymryd eu hamser CPA? Yn Ysgol Iau Pentrepoeth rydym yn rhoi sesiynau TG o ansawdd uchel iddynt sy'n ategu'r gwaith a wneir yn y dosbarthiadau, ac rydym yn ei wneud yn 'The Matrix'!

Mr Cole â'r Matrix

Ym mis Mai daeth y pennaeth Andy Martin, ataf gyda chynnig - A fyddwn yn hoffi gadael y dosbarth a rhoi gwersi TG i'r plant yn ystod amser CPA? Fy ymateb oedd – Wrth gwrs, os byddwch yn creu ystafell i mi ei defnyddio!

Ymwelwyd â thair ysgol wedi hynny, cafodd cyfrifiaduron eu prydlesi, a threuliwyd yr haf yn gweithio ar yr ystafell – trefnu'r gosodiad, lliw yr ystafell, rhoi cadeiriau ynghyd ac ysgrifennu ar y waliau! Cefais ryddid i wneud fel a fynnwn mewn ystafell o'm dewis gyda chyllideb hael. Y bwriad oedd creu ystafell a oedd yn wahanol i unrhyw beth arall yn yr ysgol, un a fyddai'n gwneud i'r plant ddweud "Wow!" wrth iddynt gerdded drwy'r drws!

Mae gan ein Matrix y ffactor 'wow'. Mae Neo, Trinity a Morpheus yn edrych i lawr arnom o'r wal, mae Star Wars, Blade Runner, The Matrix a 2001 wedi'u cynrychioli drwy ddyfyniadau ar y waliau.

Dechreuwyd defnyddio'r ystafell yn yr wythnos gyntaf lawn ym mis Medi. Yr wythnos ddiwethaf gofynnwyd i ferch fach ym mlwyddyn 4 a hoffai fynd i sesiwn ychwanegol o XL Cymru, ei hymateb oedd, "Na dim diolch, Miss, mae'n well da fi fynd i'r ystafell Matrix gyda Mr Cole!" Mae popeth yn mynd yn dda iawn. (Hal 9000).

M Cole (Cydlynydd TGCh, Ysgol Iau Pentrepoeth)

Cynllun Benthyg Gliniaduron

Yn ddiweddar, benthycwyd 8 gliniadur oddi wrthym gan Rob Appleby, Cydlynydd TG yn Ysgol Gynradd Penllergaer i archwilio'r defnydd o TGCh mewn gwersi AGorff. Yn dilyn llwyddiant y prosiect peilot hwn, byddai'r Tîm Cwricwlwm TGCh yn croesawu ceisiadau gan ysgolion â diddordeb mewn dilyn mentrau tebyg.

Mae'r 8 gliniadur ar gael ar fenthyg hir dymor i ysgolion sy'n gallu dangos angen canfyddadwy ar gyfer y cyfarpar. Bydd ceisiadau prosiect llwyddiannus yn dangos ymagwedd arloesol i ddysgu ac addysgu a dangos sut gallai'r cyfarpar a fenthycwyd effeithio ar safonau.

Dylai ysgolion gofio bod y cyfarpar yn cael ei fenthyg ar y ddealltwriaeth nad yw wedi ei gysylltu â rhwydweithiau presennol ac ni fydd yn cael cefnogaeth dechnegol o dan CLG presennol.

Cyfarfod Grŵp CL@SS

Cynhelir cyfarfod nesaf Grŵp CL@SS yn Ystafell Hyfforddi Tîm Cwricwlwm TGCh ddydd Llun 30 Ionawr 2006. Yn ystod y cyfarfod hwn, bydd Peter Owen (Qwizdom) a Shaun Thomas (Promethean) yn rhoi cyflwyniadau ar ddyfeisiau pleidleisio o bell. Yn dilyn y cyfarfod hwn, byddwn yn rhoi arweiniad pellach i ysgolion ar brynu a defnyddio dyfeisiau pleidleisio o bell. Gwyliwch y tudalennau hyn!

Cynllun Gwaith TGCh!

Mae'r cynllun gwaith newydd, sy'n seiliedig ar fodel y QCA, bellach ar gael ar wefan Dysgu-TGCh. Gellir cael dogfennaeth ar: **http://www.learn-ict.org.uk/sow.** Sylwer bod ffurflen adborth wedi'i chynnwys i alluogi defnyddwyr fynegi barn ar unedau gwahanol a rhoi awgrymiadau i wella'r cynnwys. Byddem hefyd yn croesawu cyfraniadau gan athrawon i rannu arfer da presennol yn ysgolion Abertawe gyda buddiolwyr eraill. Anfonwch eich sylwadau at Lindsay Harvey (lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk).

Sylwer hefyd bod nifer o fforymau wedi'u creu i alluogi athrawon i sgwrsio ag aelodau eraill drwy gymuned ar-lein. Mae'r rhain ar gael ar: http://www.learn-ict.org.uk/openforum/index.asp.

Gobeithir y bydd fersiwn Gymraeg o'r cynllun gwaith ar gael ar-lein o fis Ionawr 2006.

Dewch i Animeiddio!

Mae animeiddio'n llwyddiant mawr yn ysgolion Abertawe, gyda llawer o'r ysgolion yn dyrannu rhan o'u hamser cefnogi cwricwlwm ysgol ar gyfer animeiddio i wella a datblygu sgiliau allweddol a sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Mae'r gefnogaeth hyd yn hyn wedi amrywio o ddiwrnodau HMS gyda'r staff cyfan, gweithio mewn dosbarth gyda grwpiau o blant, cyfranogaeth dosbarth cyfan drwy ddarparu a defnyddio gliniaduron fel rhan o'r hyfforddiant a helpu ysgolion i sefydlu clybiau animeiddio ar ôl ysgol. Bu tri chwrs animeiddio y tymor hwn lle bu athrawon yn hynod o greadigol a chawsant lawer o hwyl, gyda mwy o gyrsiau wedi'u trefnu ar gyfer tymor y gwanwyn a'r haf.

Llongyfarchiadau i enillwyr y gystadleuaeth animeiddio!

Gwobr 1af Ysgol Gynradd St Thomas. Blwyddyn 6 – Montago
2il Wobr Ysgol Gynradd Penclawdd. Blwyddyn 3 – Indiaid Cochion
3ydd Gwobr Ysgol Gynradd Llanrhidian. Blwyddyn 3 – Angenfilod

Rhan newydd o'r wefan Dysgu-TGCh oedd creu cefnogaeth animeiddio mewn ysgolion **http://www.learn-ict.org.uk/resources/animation/index.asp** lle gallwch weld rhai o'r enghreifftiau hyfryd a grëwyd. Felly gadewch i'ch disgyblion animeiddio ac anfonwch y ffilmiau gorffenedig at Jan Morgan i'w cynnwys ar y safle. I archebu amser cefnogi ysgol cysylltwch â'ch athro/athrawes ymgynghorol penodol chi.

Jan Morgan
Athrawes Ymgynghorol Tîm Cwricwlwm TGCh

Diweddariadau Hanfodol!

Nodyn atgoffa i chi wirio'r adran Diweddariadau Hanfodol ar wefan Dysgu-TGCh. Prif ddiben yr adran hon yw eich hysbysu pryd fydd diweddariadau ac uwchraddio ar gyfer y rhaglenni rydych yn eu defnyddio ar gael. Bydd y Tîm Cwricwlwm TGCh hefyd yn defnyddio'r adran hon i roi'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael i chi o'r maes TGCh sy'n newid mor gyflym.

Mae'r diweddariadau diweddaraf ar gyfer Clicker 5, ar fersiwn 5.10 yn awr ac Audacity ar fersiwn 1.2.3.

Prosiect SA1

Ardal Ddatblygu SA1 yn Abertawe

Mae deuddeg ysgol gynradd yn rhan o brosiect amlgyfrwng cyffrous (e-olwg ar y Glannau) i baratoi cyflwyniad a fydd yn "archwilio gorffennol, presennol a dyfodol datblygiad SA1 drwy lygaid plentyn"

Bydd y gwaith hwn yn galluogi disgyblion i astudio hanes ardal SA1 gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau digidol - lluniau, fideo, sain a cherddoriaeth.

Bydd disgyblion yn gallu defnyddio'r cyfarpar recordio i gyfweld â thrigolion lleol i gael ychydig o oleuni ar hanes Abertawe ac ailddatblygu SA1 neu o bosib cynrychiolwyr llywodraeth leol i ennill dealltwriaeth uniongyrchol o gynlluniau'r ddinas ar gyfer y dyfodol.

Mynychodd athrawon o bob ysgol weithdai dau ddiwrnod i ymgyfarwyddo â'r cyfarpar ac i ystyried byrddau stori a dulliau golygu fideos.

Y bwriad yw arddangos y deunyddiau yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2006 a gynhelir wrth gwrs yn Abertawe.

Yr ysgolion sy'n cymryd rhan yw Bryniago, Bryn-y-môr, Cwm, Login Fach, Lôn-las, Llwynderw, Treforys, Pennard, YG Pontybrenin, Sgeti, St Helen a St Thomas.

GCaD Cymru – Arian Grant ar gael

Mae GCaD Cymru yn falch o gyhoeddi y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cefnogi'r Gronfa Ysgolion Arloesol ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Os ydych yn dymuno gwneud cais am arian o'r ffynhonnell hon yna lawrlwythwch ffurflen y pecyn gwybodaeth o'r Hafan ar wefan GCaD Cymru. (www.ngflcymru.org.uk). Mae cysylltiad â'r wefan hon ar hafan Dysgu-TGCh.

Roedd llawer o ysgolion Abertawe'n llwyddiannus yn eu ceisiadau y llynedd a chynhyrchwyd adnoddau digidol gwerthfawr sydd bellach ar gael ar wefan GCaD Cymru. Mae ysgolion Abertawe wedi creu mwy o adnoddau nag unrhyw AALl arall yng Nghymru. Rydym hefyd yn un o ddefnyddwyr mwyaf y Grid. Mae'r Grid ei hun wedi datblygu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf a bellach mae'n cynnwys tua 2000 o unedau gwersi. Mae'r Tîm Cwricwlwm TGCh yn argymell y safle hwn yn gryf.
Os oes diddordeb gennych wneud cais am arian neu os oes angen gwybodaeth bellach arnoch cysylltwch â Huw Morris a fydd yn cefnogi eich cais. Bydd aelodau o Dîm Cwricwlwm TGCh hefyd ar gael i gefnogi'r ceisiadau llwyddiannus. Bydd y Grid hefyd yn croesawu ceisiadau clwstwr gan rwydwaith o ysgolion.

National Grid for Learning
NGfL CYMRU
GCaD
Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu

Safle SLTS ar-lein!

Mae gwefan Cefnogi Technoleg Dysgu Abertawe bellach ar gael ar-lein. Bydd yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau a ddarperir gan Gefnogaeth Technoleg Dysgu Abertawe (SLTS), sef y gwasanaeth cefnogi technoleg TGCh ar gyfer ysgolion a gyflwynwyd gan TG Corfforaethol yn Neuadd y Sir. Mae'n cynnwys gwybodaeth a dogfennau ar bob agwedd ar dechnoleg mewn ysgolion yn ogystal â ffurflenni sy'n eich galluogi i ofyn am newidiadau, nodi diffyg a dileu cyfarpar. Y cyfeiriad yw www.learn-ict.org.uk/slts.

SLTS
Swansea Learning Technology Support

Hoffai'r Tîm Cwricwlwm TGCh ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r holl ysgolion!